Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Cynllun Gweithredu Cymru ar Ffonau Symudol

Rydym yn croesawu'r adroddiad ac yn diolch i'r pwyllgor am ei waith.

Rydym yn falch bod y pwyllgor yn cydnabod nad yw'r holl ysgogiadau i wella signal ffonau symudol yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae hyn oherwydd bod y prif ysgogiadau ar gyfer gwella cysylltedd ffonau symudol yng Nghymru yn nwylo Llywodraeth y DU ac Ofcom gan nad yw telathrebu yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Credwn y gallai Ofcom a Llywodraeth y DU wneud mwy i wella signal ffonau symudol yng Nghymru. Ymdriniwyd â materion allweddol fel rhwymedigaethau signal a thrawsrwydweithio yn ein tystiolaeth i'r pwyllgor ac maent hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn ein hymateb isod. Byddwn yn dal i bwyso am ragor o newidiadau ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom er mwyn sicrhau bod yr ysgogiadau allweddol hyn yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol yng Nghymru.

Gwnaeth y pwyllgor ddeg argymhelliad a nodir ymateb Llywodraeth Cymru i'r rhain isod.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ymgysylltu â darparwyr ffonau symudol a rhanddeiliaid eraill i nodi'r arferion gorau cyfredol i'w cynnwys yn y cod arferion gorau a TAN(19) wedi eu diwygio a'u cydgrynhoi.

Derbyn: Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth i'r pwyllgor mae'r cynllun gweithredu ar ffonau symudol yn nodi bod angen i weithredwyr rhwydwaith ffonau symudol weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn diwygio ac, os bydd hynny'n briodol, cydgrynhoi'r cod arferion gorau a Nodyn Cyngor Technegol (TAN19) ar ddatblygu seilwaith rhwydweithiau ffonau symudol. Byddwn yn ystyried adolygiad o TAN19 pan fydd gwaith pellach ar y rheoliadau hawliau datblygu a ganiateir a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi'i gwblhau. Bydd y rhain yn darparu'r cyd-destun mwyaf cyfredol ar gyfer adolygu a diweddaru dogfennau canllaw. Ni allwn roi ffrâm amser pendant ar gyfer y gwaith hwn ond mae'n annhebygol y bydd yn cael ei wneud eleni. Mae'n bosibl hefyd y gellid cyfuno TAN19 a'r Cod Arferion Gorau i greu un ddogfen. Yn Lloegr, cafodd y gwaith hwn ei arwain gan y diwydiant ffonau symudol ei hun a byddwn yn trafod hyn gyda'r diwydiant i weld a oes modd paratoi rhywbeth tebyg ar gyfer Cymru.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ganiatáu mastiau uwch o dan y drefn cynllunio a ganiateir. Dylid naill ai gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio newidiadau i ddatblygiad a ganiateir, neu esbonio pam maent wedi eu gwrthod.

Derbyn: Ymgynghorwyd ar newidiadau arfaethedig i hawliau datblygu a ganiateir yng nghyswllt uchder mastiau ffonau symudol y llynedd ar sail canfyddiadau'r adroddiad ymchwil. Bydd y rheoliadau newydd yn dod i rym ym mis Ebrill. O ran uchder mastiau, mae'r rheoliadau'n codi uchder derbyniol mastiau dan hawliau datblygu a ganiateir i 25m yn gyffredinol ac 20m mewn tirweddau gwarchodedig.

Rydym yn nodi'r cais gan y diwydiant am fastiau 30m. Fodd bynnag, teimlid bod y penderfyniad i godi trothwyon uchder hawliau datblygu a ganiateir i 25m mewn

ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwarchod yn briodol, gan gydbwyso'r angen am seilwaith telathrebu newydd â gwarchod mwynder gweledol y cymunedau hynny lle gosodir y cyfarpar. Mae hon yn ymagwedd gyson yn systemau cynllunio'r DU. Yn ystod yr ymgynghoriad roedd y diwydiant yn galw am godi'r trothwy ac roedd rhai o'r grwpiau amgylcheddol yn galw am gadw'r trothwy o 15m ar gyfer mastiau newydd. Nid yw'r diwydiant wedi cyflwyno dadl argyhoeddiadol dros godi'r trothwy hwn. Nid yw wedi darparu tystiolaeth na sicrwydd y bydd codi'r trothwy'n uwch yn arwain at godi mwy o fastiau mewn ardaloedd lle nad oes llawer o signal ar hyn o bryd os o gwbl.

Os oes angen mastiau 30m (neu uwch) yna dylai'r gweithredwyr ffonau symudol gyflwyno cais cynllunio fel bod modd ystyried effaith lawn cynnig.

Mae ein hymchwil yn dangos:

- bod 95% o geisiadau cynllunio llawn am gyfarpar telathrebu yn cael eu cymeradwyo pan mae eu hangen.
- bod 85% o'r ceisiadau hyn yn cael eu penderfynu cyn pen 8 wythnos - yr un cyfnod ag sydd ei angen ar gyfer y broses gymeradwyaeth ymlaen llaw.
- dim ond 1 apêl yn erbyn cymeradwyaeth cynllunio sydd wedi'i gwneud ers cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir. Caniatawyd yr apêl hon.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gefnogol iawn, o safbwynt polisi, i'r gwaith o gyflwyno seilwaith telathrebu newydd yn raddol. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir yn debygol o barhau â'r safiad polisi hwn a darparu polisïau mwy rhagweithiol i awdurdodau cynllunio lleol a'r diwydiant eu rhoi ar waith mewn ardaloedd lle nad oes llawer o signal os o gwbl.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ymgysylltu â gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol i gael eglurder ynghylch yr effaith debygol y byddai gostwng ardrethi busnes mewn ardaloedd gwledig yn ei chael ar signal ffonau symudol i ardaloedd lle ceir darpariaeth wael ar eu cyfer ar hyn o bryd.

Derbyn: Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth i'r pwyllgor nid yw'r diwydiant ffonau symudol wedi darparu tystiolaeth fanwl i gefnogi achos argyhoeddiadol dros gyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi. Fodd bynnag, mae swyddogion wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer cynllun cymorth ardrethi annomestig lle gellid ei gyfuno ag ymyriadau eraill mewn meysydd penodol er mwyn mynd i'r afael â mannau gwan penodol. Bydd mater rhyddhad ardrethi annomestig yn dal i gael ei drafod gyda'r gweithredwyr ffonau symudol.

Argymhelliad 4. Mewn ardaloedd sydd y tu allan i hyfywedd masnachol, dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr ddarparu signal yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio y maent yn gweithredu ynddo, neu dylai'r hawl i ddarparu signal ddychwelyd i'r sector cyhoeddus ar ôl cyfnod rhesymol. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom i ddod o hyd i gyfaddawd rhwng y ddau sydd orau i'r rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio mewn mannau lle ceir diffyg signal a mannau lle ceir signal rhannol ar hyn o bryd.

Derbyn: Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru ag uwch reolwyr yn Ofcom ym mis Chwefror i drafod rhwymedigaethau signal sydd ynghlwm wrth yr arwerthiant sbectrwm ffonau symudol a sut y gallent wella signal yng Nghymru. Mae Ofcom yn ymgynghori ynglŷn â'r rhwymedigaethau ar hyn o bryd a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ymateb maes o law. Fodd bynnag, mae eu cynigion yn nodi y bydd llai o rwymedigaethau signal yn cael eu pennu ar gyfer Cymru (83%) nag ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon (90%). Credwn fod y bwlch hwn rhwng y targed ar gyfer Cymru a'r targed ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon yn annheg ac yn annerbyniol. Y cyfan y bydd gosod targed is ar gyfer Cymru nag ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ei wneud yw parhau â'r anghydraddoldeb presennol o ran signal.

O ran dychwelyd yr hawl i ddarparu signal i'r sector cyhoeddus, mae Ofcom wedi ystyried cyflwyno amodau 'ei ennill neu ei golli' ar gyfer sbectrwm ond nid yw'n cynnig cynnwys amodau o'r fath mewn perthynas â darparu'r dyfarniadau sbectrwm sydd ar y ffordd ond bydd yn adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd yn y dyfodol. Byddwn yn rhoi sylw i hyn yn ein hymateb i'r ymgynghoriad a byddwn yn dal i bwyso ar Ofcom a Llywodraeth y DU i wneud y defnydd gorau o'r pwerau sydd ganddynt i wella cysylltedd ffonau symudol yng Nghymru.

Argymhelliad 5. Nid yw trawsrwydweithio yn ateb delfrydol i signal gwael, ond pan nad yw gwelliannau i rwydweithiau wedi eu cyflawni eto, byddai'n gwneud cryn dipyn i leddfu heriau cysylltedd yn y tymor byr. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso ar weithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol am fynediad cyfanwerthu gwledig ac, os na fydd gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol yn ateb yn gadarnhaol, dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y DU i wneud mynediad cyfanwerthu gwledig yn orfodol trwy Ofcom. Byddai gwneud hynny yn rhan o becyn ehangach â'r nod o gynyddu signal ym mhob rhan o Gymru.

Derbyn: Mae swyddogion wedi cwrdd ag Ofcom a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i drafod opsiynau ar gyfer trawsrwydweithio rhanbarthol. Rydym wedi dweud droeon dros y blynyddoedd mewn cyfarfodydd ac mewn ymateb i ymgyngoriadau statudol ein bod yn credu y dylai trawsrwydweithio sy'n gwahaniaethu yn ddaearyddol mewn ardaloedd gwledig chwarae rhan ganolog yn y gwaith o wella cysylltedd ffonau symudol mewn mannau lle ceir signal rhannol. Byddwn yn dal i weithio gydag Ofcom a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chyda'n cymheiriaid mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn dadlau'r achos.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol cyn gynted ag y bo'n ymarferol i nodi'r heriau o gyflwyno'r rhwydwaith 5G, ac ystyried sut i fynd i'r afael â'r heriau hynny gan ddefnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael iddi.

Derbyn: Rydym eisoes yn cael trafodaethau gyda'r diwydiant ffonau symudol a rhanddeiliaid allweddol eraill fel yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac awdurdodau lleol ynglŷn â defnyddio 5G a'r cyfleoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r dechnoleg a sicrhau'r manteision posibl y mae'n eu cynnig.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol yn ei thrafodaethau gyda Llywodraeth

yr Alban, i gyd-lunio atebion i ddarparu seilwaith ffonau symudol a ariennir yn gyhoeddus mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw dechnoleg ffonau symudol.

Derbyn: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal diwrnod ymgysylltu â'r diwydiant ar 19 Mawrth fel rhan o drafodaethau parhaus i ddatblygu achos busnes credadwy dros seilwaith ffonau symudol yn cael ei ariannu gan y sector cyhoeddus. Cyfarfu swyddogion hefyd ag awdurdodau lleol ym mis Chwefror i drafod lleoliadau ar gyfer ymyrryd, modelau darparu a chyllid. Bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau wrth i'r achos busnes dros seilwaith ffonau symudol yn cael ei ariannu gan y sector cyhoeddus ddal i gael ei ddatblygu.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys Network Rail a gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol yn ei thrafodaethau gyda Trafnidiaeth Cymru ynglŷn â gwell cysylltedd, i sicrhau bod mynediad at ochr y rheilffordd ar gael lle bo angen.

Derbyn: Mae ein trafodaethau hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y rhyddfraint newydd i wella cysylltedd ffonau symudol ac maent wedi cynnwys cynrychiolwyr o Trafnidiaeth Cymru a Keolis Amey. Wrth i'r cynlluniau ddatblygu bydd yn bwysig bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hynny yn y misoedd sydd i ddod. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi comisiynu Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru drwy'r contract rheilffyrdd i arwain y gwaith o sicrhau gwell cysylltedd ffonau symudol.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag EE, y Swyddfa Gartref a darparwyr ffonau symudol eraill i sicrhau na fethir y cyfleoedd cynharaf i rannu seilwaith a osodir yn rhan o Raglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys.

Derbyn: Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymwneud llawer â'r prosiect ESMCP ac fel y nodwyd yn ein tystiolaeth i'r pwyllgor bydd mastiau ffonau symudol sy'n cael eu hariannu gan y sector cyhoeddus sy'n cael eu hadeiladu dan y prosiect yn cael eu diogelu at y dyfodol drwy ddefnyddio sylfeini mastiau mwy a thyrau cadarn sy'n gallu cynnal nifer o weithredwyr. Bydd hyn yn caniatáu i nifer o weithredwyr ffonau symudol osod eu cyfarpar trawsyrru er mwyn darparu signal mewn ardaloedd anghysbell lle nad yw adeiladu mast yn hyfyw o safbwynt masnachol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn creu pwynt cyswllt eglur i alluogi trefnwyr digwyddiadau i gysylltu â Thîm Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru i wneud cais i gynnwys eu digwyddiad ar y rhestr o ddigwyddiadau mawr.

Derbyn: Y tîm seilwaith digidol fydd y pwynt cyswllt ar gyfer digwyddiadau sy'n chwilio am gyngor ynglŷn â'u hanghenion cysylltedd ffonau symudol.